



Y cwricwlwm newydd i Gymru

Canllaw hawdd ei ddeall i bobl ifanc



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Canllaw Person Ifanc i'r Cwricwlwm Newydd yng Nghymru.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r geiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 20**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

E-bost: Cwricwlwmigymru.llyw.cymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

Cynnwys

Tudalen

Mae addysg yn newid.....	4
Pedwar prif nod.....	6
Meysydd dysgu a phrofiad.....	8
Beth sydd yn bwysig.....	14
Symud ymlaen.....	16
Asesiad.....	18
Geiriau anodd.....	20

Mae addysg yn newid



Mae'r byd yn newid.



Ac rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gennych chi yr wybodaeth, sgiliau a'r profiad y byddwch chi eu hangen i wneud yn dda.



I helpu gyda hyn, mae athrawon, arbenigwyr a phobl sydd â diddordeb mewn addysg yn gweithio gyda'i gilydd i ysgrifennu **cwricwlwm** newydd i ch.

Cwricwlwm ysgol ydy cynllun ar gyfer popeth mae plant a phobl ifanc yn ei wneud yn yr ysgol. Mae'n dweud:

- **Beth** dylen nhw ei ddysgu
- **Sut** dylen nhw ddysgu
- y rheswm **pam** y dylen nhw ddysgu.

Mae'r **cwricwlwm** newydd:



- wedi cael ei ddylunio gan athrawon



- yn ateb anghenion pob person ifanc



- ac mae wedi cael ei wneud ar gyfer byd sydd yn newid yn gyflym.

Pedwar prif nod

Mae gan y **cwricwlwm** newydd bedwar prif nod. Maen nhw yno i'ch helpu chi i fod yn:

1. Dysgwyr uchelgeisiol a galluog



Mae hyn yn meddwl eich bod chi'n credu ynddoch chi eich hun a beth rydych chi'n gallu ei wneud. Rydych chi eisiau dysgu a gwneud yn well. Ac mae gennych chi'r sgiliau sydd eu hangen i ddysgu.



2. Mentrus a chreadigol

Mae hyn yn meddwl eich bod chi'n gallu bod yn greadigol a meddwl am syniadau newydd. Rydych chi'n gallu gweithio problemau allan. A defnyddio hyn yn eich gwaith.

3. Dinasyddion egwyddorol a gwybodus



Mae hyn yn meddwl eich bod chi'n deall eich hawliau, er enghraifft eich hawl i fywyd, eich hawl i fod yn rhydd a'ch hawl i fywyd preifat. Ac rydych chi'n deall eich cyfrifoldebau, er enghraifft, rydych chi'n gwrando ar y gyfraith ac yn meddwl am y bobl yn eich cymuned. Rydych chi'n cymryd rhan yn eich cymuned. Ac yn meddwl am y byd.



4. Iach a hyderus

Mae hyn yn meddwl eich bod chi'n teimlo'n dda amdanoch chi eich hun a beth rydych chi'n gredu ynddo.



Meysydd dysgu a phrofiad

Fe fyddwch chi'n dysgu:



- **Sgiliau llythrennedd** – gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg.



- **Sgiliau rhifedd** – defnyddio rhifau mewn bywyd bob dydd.



- A **sgiliau digidol**.





Fe fydd dysgu yn cael ei wneud drwy'r **6 maes dysgu a phofiad**. Dyma nhw:



1. Celfyddydau mynegiannol

Celf, Dawns, Ffilm, Drama, Cerddoriaeth a chyfryngau Digidol – defnyddio technoleg fel cyfrifaduron i wneud celf.



2. Iechyd a llesiant

Dysgu am gael corff iach, a meddwl iach. Deall perthnasoedd iach a sut i wneud penderfyniadau bywyd da.




3. Dyniaethau

Dysgu am hanes, daearyddiaeth a chrefyddau. A hefyd busnes, gwleidyddiaeth – sut mae'r wlad yn cael ei rhedeg a chymdeithas – sut mae pobl yn ein gwlad yn byw gyda'i gilydd.



4. Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu

Dysgu a deall gwahanol ieithoedd. Creu eich straeon, cerddi neu ffilmiau eich hun.



5. Mathemateg a rhifedd

Deall a defnyddio rhifau. Deall a defnyddio symbolau. Dysgu am siapiau a mesuriadau. Sut i gasglu a defnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau.



6. Gwyddoniaeth a thechnoleg

Deall natur a phethau byw. Dysgu am ddylunio ac adeiladu pethau. A sut mae technoleg yn gweithio a sut i'w ddefnyddio i weithio problemau allan.

Fe fyddwch chi hefyd yn dysgu am:



- Hawliau dynol.



- Parchu gwahaniaethau pobl. Fel beth maen nhw'n ei gredu neu o le maen nhw'n dod.



- Dysgu am waith a sut i ddewis y math o waith rydych chi eisiau ei wneud.



- Dysgu am Gymru, eich ardal leol a'r byd.



- Perthnasoedd a rhywioldeb, dysgu am bethau fel teimladau, perthnasoedd iach a sut rydyn ni'n meddwl amdanom ni ein hunain.

Beth sydd yn bwysig



Fe fyddwch chi'n dysgu am bethau fydd yn eich helpu chi mewn bywyd bob dydd.



I helpu gyda hyn mae **datganiad o beth sydd yn bwysig** yn y **cwricwlwm**.



Mae'r datganiadau yma yn helpu athrawon i wneud yn siŵr bod eich gwersi yn cael eu cysylltu â'i gilydd ac yn eich helpu i symud ymlaen yn eich dysgu.

Fe fydd y **cwricwlwm** yn eich helpu chi i:



- Gael sgiliau pwysig ar gyfer bywyd.



- Defnyddio eich dychymyg i wneud a chynllunio.



- Gofyn cwestiynau, meddwl am wybodaeth a gwneud penderfyniadau.



- Dysgu sut i wneud y mwyaf o'ch amser a'ch talentau.



Nodau

- Dysgu sut i osod nodau, edrych dros eich gwaith a rheoli eich amser.

Symud ymlaen



Mae'r **cwricwlwm** newydd fel taith.



Mae yna adegau pan rydych chi'n gallu symud ymlaen yn gyflym yn eich dysgu.



Ac efallai bod amser pan mae angen i chi arafu i roi mwy o amser i chi eich hun ddeall rhywbeth. Neu oherwydd eich bod chi wedi darganfod rhywbeth rydych chi â diddordeb mawr ynddo.



Does dim rhaid i chi symud ymlaen yn eich dysgu dim ond oherwydd eich oedran.

Fe fyddwch chi'n symud ymlaen yn eich dysgu pan rydych chi'n barod i wneud hynny. Pan:



- Rydych chi'n gwybod rhagor



- Rydych chi'n deall rhagor



- Mae eich sgiliau yn gwella

Asesiad

Mae **asesiad** yn meddwl edrych ar:



- beth rydych chi'n ei wybod
- beth rydych chi'n ei ddeall
- a beth rydych chi'n gallu ei wneud.



Mae hyn yn gallu bod drwy dasgau yn y dosbarth neu waith cartref neu weithiau drwy brawf.



Fe fyddwch chi'n gweithio gyda'ch athrawon fel eich bod chi a'ch athrawon yn deall pa mor dda rydych chi'n gwneud.

Fe fydd hyn yn eich helpu chi:



- edrych ar le rydych chi'n eich dysgu
- cynllunio beth rydych chi'n ei ddysgu nesaf
- gweld os ydych chi angen cymorth ychwanegol.



Fe fydd eich ysgol yn gweithio gyda'ch rhieni neu ofalwyr hefyd i wneud yn siŵr bod gennych chi'r holl gefnogaeth rydych chi ei angen.



Geiriau anodd

Cwricwlwm

Cwricwlwm ysgol ydy cynllun ar gyfer popeth mae plant a phobl ifanc yn ei wneud yn yr ysgol. Mae'n dweud:

- beth dylen nhw ei ddysgu
- sut dylen nhw ddysgu
- y rheswm pam y dylen nhw ddysgu.